Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 69/2014

www.cymru.gov.uk

# Ysmygu mewn Ceir sy’n Cludo Plant: monitro agweddau’r cyhoedd, diweddariad Tachwedd 2013 –

# Crynodeb gweithredol



# Ysmygu mewn ceir sy’n cludo plant: monitro agweddau’r cyhoedd, diweddariad Tachwedd 2013 –

# Crynodeb gweithredol

## Gorffennaf 2014

**Chris Roberts a Krishan Kawol**
**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**
**Llywodraeth Cymru**

Gwnaed y gwaith o gasglu’r data ar gyfer yr astudiaeth hon gan Beaufort Research Limited, Caerdydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Chris Roberts
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6543
E-bost: chris.roberts@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 15 Gorffennaf 2014

ISBN: 978-1-4734-1767-0

© Hawlfraint y Goron 2014

# Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

Nod yr ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn oedd diweddaru'r adroddiad '*Ysmygu mewn Ceir sy'n Cludo Plant: monitro agweddau'r cyhoedd*'[1] a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013. Cynhaliwyd yr ymchwil fel sail i'r gweithredu yng nghyswllt y maes polisi hwn. Cyflwynir y canfyddiadau allweddol o bedair ton o gasglu data rhwng mis Medi 2011 a mis Tachwedd 2013.

## Dulliau

Cynhwyswyd cwestiynau yn arolwg omnibws oedolion Beaufort Research Limited, a oedd wedi'i gynllunio i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth o oedolion 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Defnyddir mesurau rheoli cwota demograffig sy'n rhyng-gloi, ar ffurf oedran a dosbarth cymdeithasol oddi mewn i ryw, ym mhob pwynt samplu wrth ddewis ymatebwyr. Pennir y cwotâu hyn i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a gaiff ei ddewis. Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg Cyfweld Personol Gyda Chymorth Cyfrifiadur. Mae'r adroddiad diweddaru hwn yn cynnwys gwaith maes Ton 4 a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2013, gyda 1022 o gyfweliadau. Mae hwn yn adeiladu ar y gwaith maes a gofnodwyd yn yr adroddiad cynharach, sef Ton 1 a gynhaliwyd ym mis Medi 2011 gyda 1018 o gyfweliadau, Ton 2 ym mis Mawrth 2012 gyda 1007 o gyfweliadau a Thon 3 ym mis Tachwedd 2012 gyda 1009 o gyfweliadau. Cyflwynir y canfyddiadau ar gyfer yr holl ymatebwyr ac yn ôl is-grŵp: rhywedd; oedran; a oes plant yn y cartref ai peidio; statws economaidd-gymdeithasol; rhanbarth daearyddol; a statws ysmygu.

[1] Roberts C. et al. (2013). Ysmygu mewn Ceir sy'n Cludo Plant: monitro agweddau'r cyhoedd. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

**Canlyniadau**

Ymddygiad ysmygu mewn ceir

O blith yr ymatebwyr a oedd â defnydd o gar, dywedodd mwy na thri chwarter nad oedd ysmygu'n cael ei ganiatáu yn eu prif gar, gan gynyddu o 71% ym mis Medi 2011 i 76% ym mis Tachwedd 2013. Roedd merched, pobl hŷn, pobl yn y grwpiau proffesiynol/galwedigaethol â sgiliau a phobl nad oeddent yn ysmygu yn fwy tebygol o wahardd ysmygu yn eu prif gar.

Agweddau tuag at ysmygu ac ysmygu mewn ceir

Roedd oddeutu 90% o ymatebwyr yn cytuno bod mwg ail-law yn gallu gwneud niwed i iechyd, bod rhieni'n ysmygu'n gallu gwneud niwed i iechyd ac na ddylai rhieni ysmygu o flaen eu plant, gan ddangos cynnydd bychan dros y pedair ton. Roedd tri chwarter (76%) yn cytuno y gallai mwg ail-law fod yn niweidiol am hyd at ddwy awr ar ôl ysmygu sigarét mewn car, cynnydd o gymharu â 68% yn Nhon 3 (Tachwedd 2012). Roedd llai nag un o bob deg ym mis Tachwedd 2013 yn cytuno ei bod yn iawn ysmygu mewn car sy'n cludo pobl nad ydynt yn ysmygu, plant neu blant gyda ffenest agored, ond roedd y ffigurau ychydig yn uwch ar gyfer ysmygwyr cyfredol.

Agweddau tuag at gyfyngu ar ysmygu mewn ceir

Roedd hanner yr ymatebwyr (50%) yn cytuno y dylid gwahardd ysmygu mewn ceir, cynnydd o gymharu â 46% ym mis Medi 2011. Cynyddodd hyn i fwy na phedwar o bob pump ar gyfer ceir sy'n cludo plant (84% ym mis Tachwedd 2013). Roedd oddeutu dwy ran o dair yn cytuno bod gan unigolyn hawl i ysmygu yn ei gar ei hun (64%), sy'n is na'r 72% ym mis Tachwedd 2012. O ran ceir sy'n cludo plant, y ffigur cyfatebol oedd 65%, o gymharu â 67% ym mis Medi 2011. Fel yn y tair ton gyntaf, roedd pobl nad ydynt yn ysmygu'n fwy tebygol o gytuno â gwahardd ysmygu mewn ceir, ac felly hefyd merched, ymatebwyr hŷn a'r rhai mewn galwedigaethau proffesiynol.

Effaith debygol cyfyngu ar ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant a'r cydymffurfio â hynny

O blith y rhai a oedd â defnydd o gar, dywedodd y mwyafrif helaeth (mwy na 90% yn y pedair ton o gasglu data) na fyddai gwaharddiad ar ysmygu mewn

ceir sy’n cludo plant yn effeithio arnynt hwy mewn unrhyw ffordd (93% o bobl nad ydynt yn ysmygu a 90% o ysmygwyr ym mis Tachwedd 2013). Ym mis Tachwedd 2013, dywedodd 84% o ysmygwyr y byddent yn debygol o gydymffurfio â gwaharddiad pe bai’n cael ei gyflwyno, cynnydd o gymharu ag 80% ym mis Medi 2011.

Y tebygolrwydd o orfodi’r cyfyngiadau

Ym mis Tachwedd 2013, dywedodd cyfran lai o ymatebwyr (38%) eu bod yn teimlo ei bod yn debygol y byddai gwaharddiad ar ysmygu mewn ceir sy’n cludo plant yn cael ei orfodi, o gymharu â 45% ym mis Medi 2011. Roedd ysmygwyr (45%) yn fwy tebygol o gytuno y byddai gwaharddiad yn cael ei orfodi na’r rhai nad oeddent yn ysmygu (36%) ym mis Tachwedd 2013.

**Trafodaeth**

Yn ystod pedair ton yr arolwg, gellir gweld nad yw mwyafrif yr oedolion sydd â defnydd o gar yn caniatáu ysmygu ynddo ar unrhyw adeg. Mae hyn wedi cynyddu ar draws y pedair ton, ond ceir gwahaniaethau yn ôl ffactorau demograffig-gymdeithasol a statws ysmygu o hyd, gyda goblygiadau ar gyfer gweithredu yn y maes hwn yn y dyfodol.

Mae’n ymddangos bod yr achos dros beidio ag ysmygu mewn ceir yn cael ei dderbyn fwyfwy ymhlith y rhan fwyaf o bobl nad ydynt yn ysmygu ac ysmygwyr yng Nghymru, gyda gostyngiad yn y cyfrannau sy’n cytuno ei bod yn dderbyniol ysmygu mewn ceir pan fo pobl nad ydynt yn ysmygu neu blant yn bresennol. Mae’r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod hanner yr ymatebwyr yn cytuno y dylai ysmygu gael ei wahardd mewn ceir, gan godi i bedwar o bob pump pan fo plant yn y car. Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno hefyd bod gan unigolyn hawl i ddewis a yw am ysmygu yn ei gar ei hun ai peidio, boed yn cludo plant ai peidio.

Dywedodd oddeutu pedwar o bob pum ysmygwr y byddent yn cydymffurfio pe bai gwaharddiad ar ysmygu mewn ceir sy’n cludo plant yn cael ei gyflwyno,

sef cynnydd bychan ers mesur y llinell sylfaen yn 2011. Er gwaethaf hyn, nid oedd mwy na hanner yr ymatebwyr wedi'u darbwyllo y byddai'r gorfodi'n ymarferol.

Byddai gwerth mewn parhau i fonitro agweddau ac ymddygiad y cyhoedd, ochr yn ochr â'r casgliad o dystiolaeth ymchwil o fannau eraill, yn enwedig os oes bwriad i ymgyrchu yn y dyfodol a/neu ystyried opsiynau deddfwriaethol.